CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion drafft cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun, nos Lun, 30 Hydref am 7:30pm. Yn anffodus, oherwydd problemau technegol yn Llysfasi, nid oedd Zoom yn gweithio.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Shaun Williams, Huw Edwards, David Baker, Simon Knight Saunders, Owen Evans ac Eilir Jones.
Hefyd yn bresennol roedd Samuel Jones, aelod o Bwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych, y Cynghorydd Sir Hugh Evans a'r Clerc a Swyddog Ariannol Cyfrifol, Sian E Thomas.

Rhan 1

Dechreuodd y cyfarfod am 7:30pm.

1092. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1093. **Cafwyd munud o dawelwch** i gofio am y diweddar Glerc, Eirwen Godden, fu farw ar 9 Hydref 2023. Bu'n Glerc i Gyngor Cymuned Llanfair o fis Gorffennaf 2016 tan fis Mehefin 2022, pan benderfynodd ymddeol oherwydd gwaeledd iechyd. Daeth Eirwen yn Glerc wedi i'r Clerc blaenorol farw'n sydyn a llywiodd y Cyngor drwy gyfnod anodd iawn, ac roedd hi'n wybodus ac yn rhesymegol iawn. Bydd colled mawr ar ei hôl ymhlith Cynghorwyr a thrigolion fel ei gilydd.

1094. **Ymddiheuriadau** – derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Osian Owen, Keith Moulsdale a Ceri Ranson ac hefyd gan Darren Millar AS, a oedd wedi gobeithio bod yn y cyfarfod.

1095. **Datgan buddiannau.** Datganodd y Cadeirydd fuddiant personol yn eitem 1106c.

1096. **Sesiwn Cyfranogiad Cyhoeddus**. Nid oedd unrhyw aelodau'r cyhoedd yn bresennol.

1097. **Cytuno ar a llofnodi cofnodion y cyfarfod cyffredin a gynhailwyd ar 2 Hydref 2023**
Yn dilyn ystyried y cofnodion, cytunodd y Cyngor eu bod yn gofnodion cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

1098. **Materion yn codi o'r cofnodion:**
a. Mae'r Clerc wedi anfon neges e-bost i Ysgol Llanfair yn gofyn a fyddai'n bosibl gosod hysbysfwrdd y Cyngor ar ffens yr ysgol. Ni dderbyniwyd ateb hyd yma, er gwaethaf mynd ar ôl y mater.
b. Archebwyd torch gan y Lleng Brydeinig i'r Cadeirydd ei gosod ar Sul y Cofio ac throsglwyddwyd cyfraniad o £200 i'h sefydliad.

c. Mae'r Clerc wedi rhoi'r datganiad i'r wasg am yr ymgynghoriad ynghylch statws Parc Cenedlaethol arfaethedig ar y wefan.
d. Mae'r Clerc wedi cysylltu ag Ysgol Pentrecelyn ac Ysgol Llanfair ynghylch y diffibrilyddion.

1099. **Cynlluniau Hyfforddiant y Cynghorwyr**
Nodwyd fod y Cynghorwyr yn parhau i wneud hyfforddiant ac y dylent gysylltu gyda'r Clerc os ydynt yn dymuno archebu lle ar unrhyw gyrsiau. Bydd y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn mynd ar gwrs hyfforddiant ynghylch Cadeirio Cyfarfodydd a drefnir gan Gyngor Sir Ddinbych fis nesaf.

1100. **Awr Sero – Bil yr Hinsawdd ac Ecoleg.** Yn dilyn ystyried y cynnig drafft, y mae angen penderfynu arno cyn 24 Tachwedd, **penderfynwyd:** ymrwymo i hyn gan ei fod yn cyd-fynd yn dda gyda llawer o'r gwaith sy'n cael ei wneud gan y Cyngor ar hyn o bryd. **Gweithred:** Y Clerc i'w roi ar y wefan ac anfon neges e-bost at David Jones AS.

1101. **Poliisïau.** Protocolau Datrysiadau Lleol. Yn dilyn darllen y ddogfen a gynhyrchwyd gan Un Llais Cymru, **penderfynwyd:** mabwysiadu'r protocol gan y Cyngor. **Gweithred:** Y Clerc i'w roi ar y wefan.

1102. **Cae Chwarae Llanfair DC**

a. Diweddariad am y sefyllfa gyfredol. Yn dilyn llawer o ymholiadau gan drigolion lleol, datganodd y Cadeirydd y derbyniwyd grantiau gan Cadw Cymru'n Daclus, Ymddiriedolaeth, Fitzwilliam a'r Loteri. Yn anffodus, oherwydd sylwadau niweidiol gan rai aelodau'r cyhoedd roedd y grant gan Cadw Cymru'n Daclus wedi'i oedi nes y derbynnir cadarnhad ynghylch caniatâd cynllunio, os oes angen hynny, ar gyfer yr offer chwarae. Efallai na cheir hyn tan y flwyddyn ariannol nesaf.

b. Coed. Mae'r gwaith angenrheidiol ar y coed ar fin dechrau, y cyfan wedi derbyn y caniatâd cynllunio priodol gan Gyngor Sir Ddinbych, ym mis Tachwedd 2023. Hefyd bwriedir gofyn i'r contractwr dorri'r gwrychoedd o amgylch y cae, fel y cytunwyd gydag Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych. Ymgynghorwyr gydag arbenigwr coed ffrwythrau ynghylch tocio'r coed afalau.

c. Caniatâd Cynllunio. Mae Swyddogion Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych wedi edrych ar y cynllun a gyflwynwyd gan un cwmni offer chwarae ac wedi cadarnhau na fydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer yr offer chwarae arfaethedig. Unwaith y bydd dyfynbrisiau eraill wedi'u derbyn bydd y cynllun terfynol yn cael ei

anfon i'r Adran Cynllunio. **Gweithred:** Mae'r Clerc yn mynd i lenwi Tystysgrif Defnydd neu Ddatblygiad Cyfreithlon.

d. Mae'r **adroddiad ecoleg** wedi'i gwblhau gan gwmni preifat a bydd yn cael ei gyflwyno i ni ym mis Tachwedd.

e. Nid oedd yn bosibl symud y **polyn Scottish Power** oherwydd bod angen offer mwy sylweddol i'w godi a'i symud. Bydd yn cael ei symud ynghanol mis Tachwedd yn awr.

f. **Yr Elusendai.** Mae'r Cyngor wedi derbyn dogefnnau y mae'n ofynnol eu llofnodi er mwyn sefydlu elusen newydd er budd y gymuned yn dilyn gwerthu'r Elusendai. Mae angen tri ymddiriedolwr i ddechrau i sefydlu'r elusen, a fydd yn gynrychiolwyr o Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Cymuned Llanfair DC. Nodwyd fod cyfreithwyr Grŵp Cynefin a chyfreithwyr Cyngor Sir Ddinbych wedi craffu ar y dogfennau. Nodwyd ei bod yn biti fod Llanfair DC yn colli saith bwthyn bach i'r rhai mewn angen, ond bydd Cyngor Sir Ddinbych yn darparu llety amgen. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Grŵp Cynefin i holi am statws y Gofeb ac am gadarnhad nad oes ymrwymiad ariannol ar y Cyngor o fod yn ymddiriedolwr. Bydd yr elusendai a'r hen ysgol yn cael eu rhoi ar y farchnad yn fuan.

1103. **Materion Priffyrdd a'r Amgylchedd**

a. **Pryderon am oryrru.**
Roedd y Cadeirydd wedi hysbysu Cyngor Sir Ddinbych bod dwy set o arwyddion 30 milltir yr awr yn parhau i fod mewn parth 20 milltir yr awr ym Mhentrecelyn. Fe'i hysbyswyd fod Cyngor Sir Ddinbych yn aros i Lywodraeth Cymru gynnal arolwg cyn eu newid gan nad ydynt wedi nodi'r holl arwyddion y mae angen eu newid eto.
Gweithred: Y Clerc i holi Cyngor Sir Ddinbych am statws cyfreithiol yr arwyddion 30 milltir yr awr yn yr ardal.

b. Dywedodd y Cynghorydd Hugh Evans ei fod wedi teithio drwy'r ardal gyda staff yr Adran Priffyrdd a bod angen mewnbwn gan y Cyngor Cymuned ynghylch unrhyw broblemau yn yr ardal. Dywedodd fod Cyngor Sir Ddinbych yn mynd i ymdrin â'r ardal y tu allan i Gapel Salem. Nodwyd fod angen glanhau'r gwlïau a ganlyn:
   i. Pentrecoch i fferm y Graig
   ii. Mae angen glanhau oddeutu saith gwli yn yr ardal o gwmpas Gorffwysfa
   iii. Yr ardal o amgylch Graigfechan ger Tywysog Bach
   iv. Llysfasi ble mae pibell wedi dymchwel.
   v. Lôn Bryn Coch, ble mae'r mannau y clytiwyd y tarmac yn golchi ymaith yn y llifogydd
   vi. Y lôn o'r Hen Swyddfa Bost i Hirdir ym Mhentrecelyn.

Nodwyd fod yr afon yn Llanfair i gyfeiriad Plas Einion wedi'i chloddio a'i ffensio. Gwnaed sylwadau fod ardaloedd clytio tarmac yn golchi ymaith pan fydd yn glawio, felly nid yw'n ddefnyddiol. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i hysbysu am yr holl faterion.

1104. **Materion Cyllid**

a. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad am y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol.

b. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol Rhestr Taliadau mis Hydref hyd yma, a chytunodd y Cynghorwyr i wneud yr holl daliadau.

Dyddiad	I	Swm	Sylwadau
17/10/2023	AVOW	£631.60	Cyflog mis Hydref y Clerc, treuliau mis Medi a chostau cyflogres
20/10/2023	Y Lleng Brydeinig	£200.00	Cyfraniadau 2022/23 a 2023/24
21/10/2023	HSBC	£5.00	Ffi bancio mis Medi
Cyfanswm		**£836.60**	

c. Y Gyllideb. Roedd y Clerc wedi dosbarthu copi o'r gyllideb ar gyfer 2023/24 a'r symiau a wariwyd hyd at 30 Medi 2023.

d. Archwilio Allanol. Mae'r Cyngor yn falch o gyhoeddi ei fod wedi derbyn cadarnhad gan Archwilio Cymru o'r diwedd y craffwyd ar gyfrifon 2020/21 a 2021/22 a chyhoeddwyd eu bod yn Ddiamod. Nodwyd na dderbyniwyd anfonebau gan Archwilio Cymru ers tair blynedd. Ni dderbyniwyd canlyniadau archwilio cyfrifon 2022/23, er bod yr Archwilydd wedi anfon Hysbysiad Cwblhau'r tri archwiliad. Bydd hyn yn cael ei roi ar y wefan unwaith y bydd yr archwiliad diweddaraf wedi'i gwblhau.

e. Bancio moesegol. Roedd y Cynghorwyr wedi astudio'r wybodaeth am Unity Trust Bank a **phenderfynwyd:** y dylai'r Clerc agor cyfrif gyda nhw a chau cyfrifon y Cyngor gyda'r HSBC.

f. **Penderfynwyd:** Newid y swm a gynhwysir yn Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol y Cyngor fel bod yr isafswm yn cynyddu o £3,000 i £5,000 cyn bod angen tri dyfynbris wrth brynu nwyddau a gwasanaethau, yn unol â chynghorau eraill a chostau'n cynyddu. **Gweithred:** Y Clerc i'w diweddaru, eu dosbarthu i'r Cynghorwyr a'u rhoi ar y wefan.

g. Cais gan yr Eglwys am gyfraniad tuag at dorri glaswellt. **Penderfynwyd:** gwneud cyfraniad o £250 i'r eglwys. **Gweithred**: Y Clerc i wneud hyn. Nodwyd fod y Cyngor Cymuned yn parhau i aros am dystiolaeth gan yr Eglwys mai'r Cyngor Cymuned sy'n gyfrifol am gynnal y wal o amgylch yr eglwys. **Gweithred:** Y Cynghorydd D. Baker i ymchwilio i hyn.

1105. **Cynllunio.** Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau i'w trafod y mis hwn.

1106. **Gohebiaeth i'w adolygu**

a. Nodwyd fod Phil Burrows o Gyngor Sir Ddinbych wedi anfon rhagor o wybodaeth i'r Cyngor gan fod Prosiect Gigabit wedi'i ymestyn i saith mlynedd. Mae wedi gofyn i'r Cynghorwyr ei hysbysu os ydynt yn gwybod am unrhyw un â diddordeb mewn gwella eu cysylltiad rhyngrwyd.

b. Grant Twf Economaidd. Nodwyd fod Coleg Llysfasi wedi gorfod tynnu eu cais yn ôl ac mae'n chwilio am ffrydiau cyllido eraill.

c. Bydd ail ran Adolygiad y Gwasanaeth Adfer a Throsglwyddo Meddygol Brys ynghylch sut i wella'r Gwasanaeth Ambiwlans Awyr yng Nghymru – a ddarperir mewn partneriaeth rhwng elusen Ambiwlans Awyr Cymru a Gwasanaeth Adfer a Throsglwyddo Meddygol Brys Gwasanaeth Iechyd Gwladol Cymru rhwng 9 Hydref a 5 Tachwedd 2023 i gael adborth y cyhoedd.

d. Mae Adroddiad Blynyddol drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn datgan fod rhaid talu £150 y flwyddyn i gynghorwyr am weithio o adref ynghyd â £52 am bapur a nwyddau swyddfa ac ati, neu i gael eu had-dalu am eu gwir wariant. Derbyniwyd cadarnhad gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi na fydd treth yn ddyledus ar y taliadau hyn. **Gweithred:** Gofynnwyd i'r Cynghorwyr hysbysu'r Clerc a ydynt yn dymuno hawlio eu treuliau neu optio allan o'u derbyn.

1107. **Eitemau y tynnwyd sylw'r Cynghorwyr atynt**

a. Hysbysodd y Cyngorydd Knight Saunders y cyfarfod nad yw'r tanc dŵr yng Nghae Mair wedi'i adael ar agor yn ddiweddar a'i bod yn ymddangos bod giatiau newydd wedi'u gosod dros y tanc. **Gweithred:** Y Cynghorydd E. Jones i gymryd golwg ar y tanc hefyd.

b. Nodwyd nad yw'r giât mochyn yng Nghae Mair wedi'i adnewyddu. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn pryd y bydd yn cael ei adnewyddu.

c. Mae tafarn y Three Pigeons, Graigfechan, wedi rhoi datganiad ar y cyfryngau cymdeithasol yn dweud nad yw'n cau.

d. Bu'r Cynghorydd Baker mewn ymgyngoriad ynghylch y Parc Cenedlaethol arfaethedig a hysbysodd y cyfarfod y bydd y prif ymgynghoriad yn digwydd y flwyddyn nesaf. Mae'r ardal arfaethedig yn ymestyn o Brestatyn i Lanfyllin. Cytunwyd nad yw'r broses wedi'i thrin yn dda gan Lywodraeth Cymru a pham newid o

fod yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol? Os yw'n bwrw ymlaen yna bydd angen rhyddhau mwy o gyllid ar gyfer llwybrau troed, arwyddion ac ati.

1108. Cytunwyd y byddai cyfarfod nesaf y Cyngor yn cael ei gynnal ar 4 Rhagfyr 2023 yng Ngholeg Llysfasi am 7:30pm.

1109. **Penderfynwyd: Trafod yr eitem a ganlyn yn Rhan 2, gan eithrio'r Wasg a'r Cyhoedd.**

1110. **Dyfynbrisiau offer chwarae**
Ni dderbyniwyd unrhyw ddyfynbrisiau eraill. **Gweithred:** Y Clerc i fynd ar ôl hyn eto a gwirio gyda'r Loteri i weld a oes angen tri dyfynbris. Os felly y Clerc i roi hysbyseb ar Gwerthwch i Gymru. Mae angen dyfynbris newydd bellach ar gyfer y gwaith tir dechreuol. **Gweithred:** Y Clerc i gael dyfynbrisiau.

Gorffennodd y cyfarfod am 9: 30pm.

CADEIRYDD DYDDIAD

_____ _____